

Cynghorion Defnyddiol ar gyfer cyflwyno hawliau plant - y Cyfnod Sylfaen

1. Gwnewch fwrdd arddangos sy'n cysylltu CCUHP â'r pethau sydd eu hangen ar blant er mwyn bod yn hapus, yn iach ac yn ddiogel
2. Cysylltwch rannau o'r ystafell ddosbarth â hawliau gwahanol. Rhai enghreifftiau: Erthygl 31 (yr hawl i ymlacio a chwarae) yn y man chwarae neu yn y man tawel, Erthygl 24 (yr hawl i gael bwyd iach a dŵr) wrth ymyl y man byrbrydau neu'r man yfed dŵr
3. Ewch ati i greu "Masgot Hawliau" gyda'r plant yn eich ysgol. Gallwch ddefnyddio'r masgot o gwmpas yr ysgol gan greu cysylltiad gweledol â hawliau.
4. Fel rhan o waith cartref/ ysgol gallwch greu/ brynu masgot rhithwir, e.e. Hywel y Ddraig Hawliau, fydd yn gallu mynd adref gyda'r disgyblion i weld eu hawliau ar waith - gallwch ofyn i ddisgyblion/ ofalwyr nodi mewn llyfr sut mae'r masgot wedi mwynhau profi hawliau neu drydar llun a chynnwys yr ysgol yn y trydariat
5. Cysylltwch hawliau plant â thrafodaethau amser cylch
6. Defnyddiwch ein rhestr o eitemau cyfeirio fel testun siarad gyda'r plant. Anfonwch yr eitemau o law i law o gwmpas y cylch a gofynnwch i'r plant ystyried pam mae angen y pethau hyn arnyn nhw er mwyn tyfu i fyny'n hapus, yn iach ac yn ddiogel. Er enghraifft, pwy sy'n defnyddio stethosgop? Pam mae gweld meddyg yn bwysig?
7. Defnyddiwch ein pecyn lluniau fel testun siarad gyda'r plant. Gofynnwch iddyn nhw ddisgrifio'r lluniau neu chwilio am nodweddion tebyg yn y lluniau



